

Meddylfryd Philistaidd

“Ac ailgloddiodd Isaac y pydewau dŵr a gloddiwyd yn nyddiau ei dad Abraham, ac a gaewyd gan y Philistaidd ar ôl marw Abraham.” (adn. 18)

Beth am ddarllen Genesis 26:1–18 ac yna myfyrio

Un o'r pethau sy'n peri cryn bryder yng nghymdeithas Gristnogol ein dydd yw bod nifer o ffynhonnau, a fu'n ffynhonnell i ddyfroedd clir a bywiol yr Ysbryd yn y gorffennol, bellach mewn perygl o gael eu cau gan yr hyn gellir ei ddisgrifio fel meddylfryd Philistaidd. Mae'r adran i'w darllen heddiw o gymorth i esbonio hynny.

Roedd Isaac, mab Abraham, yn mynd trwy gyfnod yn ei fywyd lle'r oedd yn derbyn bendith Duw yn helaeth, ac, oherwydd hynny, roedd ei gymdogion yn eiddgeddus iawn ohono. Gorfodwyd ef a'i deulu i symud o ddinas Gerar i ymsefydlu yn nyffryn Gerar. Wedi cyrraedd, ei bryder cyntaf oedd darganfod dŵr, ac wrth edrych o'i gwmpas, fe gofiodd i'w dad, Abraham, yn y blynyddoedd a fu, fyw yn y dyffryn hwn, ac iddo gloddio nifer o bydewau a ddefnyddiwyd i ddarparu dŵr ffres. Gorchmynnodd i'w weision edrych am y ffynhonnau hyn. Wedi dod o hyd iddynt, cawsant fod y Philistaidd – pobl oedd yn ymosodol iawn eu hagwedd – wedi eu llenwi gyda baw a rwbel. Roedd y dŵr yn dal i darddu yno, ond doedd dim posib ei gyrraedd. Dyma pryd y dechreuwyd ar y gwaith o ailagor y ffynhonnau.

Yn anffodus, mae'r rhwystr yma yn dal yn ein plith. Mae llawer o'r ffynhonnau y bu i'n tadau yfed ohonynt yn cael eu llenwi hefo pob math o sbwriel, a hwnnw yn enw Cristnogaeth, sbwriel syniadau dynion, y sbwriel hwnnw sy'n cael ei alw yn wirionedd, ond nid gwirionedd Duw mohono. Oherwydd hynny, nid yw'r ffynhonnau yn cyflawni eu diben. Efallai mai'r her fwyaf i Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yn ein dydd yw ailddarganfod y ffynhonnau hyn a symud y sbwriel, fel bod pobl Dduw, unwaith yn rhagor, yn cael mynedfa i ddyfroedd bywiol y gwirionedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Sam. 13:5–14; 14:6–13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa effaith gafodd y Philistaidd ar Saul a'i ddynion?
2. Pam fod Jonathan yn credu y gallai drechu'r Philistaidd?

Gweddi

O Dduw, cynorthwya fi, wrth imi gychwyn y myfyrdodau hyn, i weddio am gael adnabod angen mawr dy Eglwys ar yr amser hwn. Caniatâ i mi ddod i argyhoeddiad fod dy wirionedd di yn wirionedd safadwy. Yn enw Iesu. Amen.